

# Canabis

## Canabis - Testun 1

Darllenwch yr wybodaeth ganlynol am effeithiau canabis ar y corff

*Canabis yw'r cyffur anghyfreithlon mwyaf cyffredin a ddefnyddir ym Mhrydain. Mae'n cynnwys cemegyn a elwir tetrahydrocannabinol (THC), a all newid y ffordd y mae'ch corff yn gweithio.*

*Gall canabis effeithio ar y corff mewn nifer o wahanol ffyrdd.*

- *Gall dawelu pobl a'u gwneud i deimlo'n ddibryder a hapus*
- *Gall wneud i bobl deimlo'n newynog – a gorfwyta'n awchus*
- *Gall canabis wneud pobl yn gysglyd*
- *Gall ddwysáu synhwyrâu'r defnyddwyr, e.e gwneud i liwiau ymddangos yn fwy llachar*
- *Gall defnyddwyr gael rhithweledigaethau*
- *Gall defnyddwyr ddioddef pryder a pharanoia*
- *Mae canabis yn cyflymu curiad y galon*
- *Gall defnyddio canabis effeithio ar y gallu i gyd-symud aelodau'r corff*
- *Gall defnyddio canabis arwain at anhawster i ganolbwyntio*
- *Gall defnyddio canabis effeithio ar allu person i symbylu ei hunan i wneud pethau*



## Cwestiwn 1: CANABIS

O'r wybodaeth am effeithiau'r cyffur sydd yn y testun uchod, ar ba ran o'r corff y tybiwch y mae'r cyffur canabis yn effeithio fwyaf?

- A Yr ymennydd
- B Y galon
- C Yr arennau
- D Yr ysgyfaint

Parhad

## Cwestiwn 2: CANABIS

Fel yn achos alcohol, mae gyrru o dan ddylanwad cyffuriau yn anghyfreithlon.

Rhowch gylch am 'ydy' neu 'nac ydy' gyferbyn â phob un o'r gosodiadau canlynol.

<b>Mae hon yn effaith canabis sy'n debygol o effeithio ar y gallu i yrru</b>	<b>Ydy neu Nac ydy ?</b>
Yr effaith o wneud i bobl deimlo'n gysglyd	Ydy / Nac ydy
Yr effaith ar gydsymud aelodau o'r corff	Ydy / Nac ydy
Yr effaith o wneud i bobl deimlo'n newynog	Ydy / Nac ydy
Yr effaith o arwain at anhawster i ganolbwyntio	Ydy / Nac ydy

## Cwestiwn 3: CANABIS

Gall defnyddwyr canabis gael anawsterau gyda'u hastudiaethau yn yr ysgol, neu yn eu swyddi.

Rhowch gylch am 'ydy' neu 'nac ydy' gyferbyn â phob un o'r gosodiadau canlynol.

<b>Mae hon yn effaith canabis sy'n debygol o effeithio ar waith ysgol neu ar swydd defnyddiwr</b>	<b>Ydy neu Nac ydy ?</b>
Yr effaith o wneud i bobl deimlo'n gysglyd	Ydy / Nac ydy
Yr effaith o achosi problemau canolbwyntio	Ydy / Nac ydy
Yr effaith o wneud i bobl deimlo'n newynog	Ydy / Nac ydy
Yr effaith ar allu person i symbylu ei hunan i wneud pethau	Ydy / Nac ydy

**Parhad**

## Canabis – Testun 2

Cynhaliwyd astudiaeth a fu'n dilyn hynt bron 2000 o bobl ifanc am 8 mlynedd i weld a oedd defnyddio canabis yn cynyddu'r tebygolrwydd y byddent yn datblygu problemau iechyd meddwl. Gofynnodd trefnwyr yr astudiaeth i'r bobl ifanc ddweud a oeddent wedi dioddef unrhyw symptomau seicotig, fel canfyddiadau cythryblus neu baranoia. Casglwyd y data canlynol yn ystod 5 mlynedd olaf yr astudiaeth.

	Canran y bobl a adroddodd am symptomau seicotig
Wedi cymryd canabis o leiaf 5 gwaith	14%
Heb gymryd canabis	8%

### Cwestiwn 4: CANABIS

Beth mae'r data hyn yn ei ddweud wrthym ynghylch defnyddio canabis a symptomau seicotig ?

- A Mae defnyddwyr canabis bron ddwywaith mor debygol o adrodd eu bod wedi dioddef symptomau seicotig, o'u cymharu â phobl sydd heb ddefnyddio canabis
- B Mae defnyddwyr canabis tua hanner mor debygol o adrodd eu bod wedi dioddef symptomau seicotig, o'u cymharu â phobl sydd heb ddefnyddio canabis
- C Nid yw defnyddwyr canabis yn fwy tebygol o adrodd eu bod wedi dioddef symptomau seicotig na'r bobl sydd heb ddefnyddio canabis
- D Nid yw'r bobl sydd heb ddefnyddio canabis yn adrodd eu bod wedi dioddef symptomau seicotig

### Cwestiwn 5: CANABIS

Y pennawd uwchben adroddiad mewn papur newydd ar y data o'r astudiaeth hon oedd '**Mae canabis yn achosi symptomau seicotig**'.

Nodwch un darn o dystiolaeth o'r tabl data sy'n ategu'r pennawd hwn

---

---

Nodwch un darn o dystiolaeth o'r tabl data nad yw'n gefnogol i'r pennawd

---

---

## SGORIO: CANABIS

### Cwestiwn 1

#### **Credyd llawn:**

A Yr ymennydd

#### **Dim credyd:**

Ymatebion eraill

Dim ymateb

#### **Naratif:**

A – Mae'r testun yn cyfeirio at nifer o effeithiau megis dwysáu'r synhwyrâu, rhithweledigaethau, paranoia a phryder, cydsymudiad, y gallu i ganolbwyntio a symbyliad. Achosir yr holl effeithiau hyn gan newidiadau yn yr ymennydd. Mae'n hysbys bod canabis yn gor-actifadu derbynyddion yn yr ymennydd sy'n effeithio ar y cof, pleser, canfyddiad synhwyradd a'r canfyddiad o amser, etc. Ar ôl ei ddefnyddio am gyfnod hir, credir bod canabis yn achosi gostyngiad parhaol yn nifer y cysylltiadau yn y rhannau o'r ymennydd sy'n rheoli meddwl a chofio. Mae'n ymddangos bod yr effaith hon yn fwy os yw'r person yn dechrau defnyddio canabis yn ifanc (yn ystod ei arddegau).

B – Mae'r testun yn cyfeirio at gyfradd curiad y galon, ac felly mae yna effeithiau ar y galon, ond yr ymennydd sy'n rheoli cyflymder curiad y galon.

C – Ni chyfeirir yn y testun at unrhyw effaith canabis ar yr arennau, ac felly ni ddylai myfyrwyr ddewis yr opsiwn hwn o'r rhestr

D – Ni chyfeirir yn y rhestr at unrhyw effaith canabis ar yr ysgyfaint, ac felly ni ddylid dewis yr opsiwn hwn. Mae'n wir y gall ysmegu canabis effeithio ar yr ysgyfaint yn yr un modd ag ysmegu sigarêts (risg uwch o heintiadau a chlefydau anadlol) ond ni chyfeirir at hynny yn y testun.

<b>Categoriâu Fframwaith</b>	<b>Fframwaith 2015</b>
<b>Math o wybodaeth</b>	Gwybodaeth am gynnwys gwyddoniaeth
<b>Cymhwysedd</b>	Esbonio ffenomena yn wyddonol
<b>Cyd-destun</b>	Peryglon - personol
<b>Gofyniad gwybyddol</b>	Isel

### Cwestiwn 2

#### **Credyd llawn:**

Ydy, Ydy, Nac ydy, Ydy, yn y drefn honno

**Dim credyd:**

Ymatebion eraill

Dim ymateb

**Naratif:**

Ydy – gan fod canabis yn gwneud pobl yn gysglyd ac o bosibl yn amharu ar eu gallu i adweithio, byddai'n annoeth iddynt yrru, rhag syrthio i gysgu wrth y llyw ac achosi damwain.

Ydy – mae gyrru yn galw am drin offer megis y llyw, y pedalau, y lifer gêr etc mewn modd cydgysylltiedig. Bydd yn anos i bobl a fu'n cymryd canabis gydgysylltu'r symudiadau hyn, a bydd eu gallu i yrru felly yn ddiffygiol.

Nac ydy – nid yw bod yn newynog yn debygol o rwystro person rhag gyrru yn briodol. Dylai myfyrwyr wybod, fodd bynnag, y gall newyn achosi diffyg siwgr yn y gwaed; a gall hynny, yn ei dro, effeithio ar dymer person a'i egni. Mae rhai astudiaethau wedi canfod cysylltiad rhwng newyn a dicter ac ymddygiad ymosodol.

Ydy – mae person sy'n analluog i ganolbwyntio yn debygol o wneud camgymeriadau; a phan fo'r person yn gyrru, gall canlyniadau hynny fod yn beryglus. Mae'n bosibl na fydd yn sylwi ar y peryglon sydd o'i gwmpas e.e. cerbydau eraill neu gerddwyr.

<b>Categoriâu Fframwaith</b>	<b>Fframwaith 2015</b>
<b>Math o wybodaeth</b>	Gwybodaeth am gynnwys gwyddoniaeth
<b>Cymhwysedd</b>	Esbonio ffenomena yn wyddonol
<b>Cyd-destun</b>	Peryglon - personol
<b>Gofyniad gwybyddol</b>	Canolig

**Cwestiwn 3**

**Credyd llawn:**

Ydy, Ydy, Nac ydy, Ydy, yn y drefn honno

**Dim credyd:**

Ymatebion eraill

Dim ymateb

**Naratif:**

Ydy – os yw person ar fin syrthio i gysgu, nid yw'n debygol y gall ddysgu'n effeithiol yn yr ysgol. Gall blinder effeithio ar ei allu a'i symbyliad i gwblhau tasgau. Mewn rhai swyddi, megis swyddi sy'n cynnwys gweithredu peiriannau, gall blinder, neu hyd yn oed syrthio i gysgu, fod yn beryglus iawn.

Ydy – mae'r anhawster i ganolbwyntio hefyd yn beryglus mewn rhai swyddi. Mae diffyg canolbwyntio yn debygol o amharu ar berfformiad disgybl mewn ysgol, os nad yw'n rhoi ei sylw llawn i'r dasg sydd o'i flaen neu i'r hyn y mae'r athro yn ei ddweud.

Nac ydy – mae newyn wedi ei gysylltu ag ymddygiad ymosodol mewn rhai astudiaethau, a gall newynu achosi diffyg siwgr yn y gwaed ac arwain at lefelau isel o egni; ond ni ddylai teimlo'n newynog, yn ei hunan, rwystro rhywun, i unrhyw raddau sylweddol, rhag gwneud ei waith ysgol neu gyflawni ei swydd.

Ydy – dangoswyd bod canabis yn effeithio ar y rhan o'r ymennydd sy'n rheoli symbyliad. Mae symbyliad yn bwysig o ran sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud, mewn swyddi cyflogedig ac yn yr ysgol. Mae'r bobl sy'n brin o symbyliad yn debygol o berfformio'n wael a chwblhau tasgau o safon is. Dangosodd astudiaethau fod defnyddwyr canabis yn fwy tebygol o gyrraedd eu gwaith neu'r ysgol yn hwyr, ac o gymryd diwrnodau i ffwrdd.

<b>Categoriâu Fframwaith</b>	<b>Fframwaith 2015</b>
<b>Math o wybodaeth</b>	Gwybodaeth am gynnwys gwyddoniaeth
<b>Cymhwysedd</b>	Esbonio ffenomena yn wyddonol
<b>Cyd-destun</b>	Peryglon - personol
<b>Gofyniad gwybyddol</b>	Canolig

#### **Cwestiwn 4**

##### ***Credyd llawn:***

A Mae defnyddwyr canabis bron ddwywaith mor debygol o adrodd eu bod wedi dioddef symptomau seicotig, o'u cymharu â phobl sydd heb ddefnyddio canabis

##### ***Dim credyd:***

Ymatebion eraill

Dim ymateb

##### ***Naratif:***

A – hwn yw'r casgliad cywir ar sail y data a gyflwynwyd. Roedd 14% o'r bobl ifanc a oedd wedi defnyddio canabis wedi adrodd hefyd am symptomau seicotig, o gymharu ag 8% o'r rhai nad oeddent wedi defnyddio'r cyffur. Mae'r ffigur o 14% bron ddwywaith cymaint â'r ffigur o 8%.

B – nid yw hyn yn gywir. Fel y disgrifiwyd yn rhan A, y ffigur ar gyfer defnyddwyr canabis a oedd hefyd yn adrodd am symptomau seicotig oedd 14%, sef bron ddwywaith y ffigur o 8% ar gyfer rhai nad oeddent yn defnyddio'r cyffur.

C – nid yw hyn yn gywir. Mae'r ffigur ar gyfer defnyddwyr canabis yn llawer uwch na'r ffigur ar gyfer rhai nad ydynt yn ei ddefnyddio. Er mwyn i'r gosodiad hwn fod yn gywir, byddai angen i'r ddau ffigur fod yn debyg iawn.

D – Ni ellir dweud hyn ar sail y data a gyflwynir yma. Y cyfan a ddangosir gan y data yw pa mor debygol yw pobl ifanc o adrodd am ddiodeff symptomau seicotig. Nid ydynt yn cynnig unrhyw dystiolaeth i brofi bod symptomau seicotig yn cael eu hachosi gan ddefnyddio canabis.

<b>Categoriâu Fframwaith</b>	<b>Fframwaith 2015</b>
<b>Math o wybodaeth</b>	Epistemig
<b>Cymhwysedd</b>	Dehongli data a thystiolaeth yn wyddonol
<b>Cyd-destun</b>	Peryglon - personol
<b>Gofyniad gwybyddol</b>	Canolig

## **Cwestiwn 5**

### ***Credyd llawn:***

Yn ategu'r pennawd – mae canran uwch / mwy o'r bobl sy'n defnyddio canabis yn adrodd am ddiodeff symptomau seicotig, nag o'r bobl nad ydynt yn defnyddio canabis **neu** mae canran is / llai o'r bobl nad ydynt yn defnyddio canabis yn adrodd am ddiodeff symptomau seicotig

Nad yw'n gefnogol i'r pennawd - mae 8% / rhai o'r bobl nad ydynt / sydd ddim erioed wedi defnyddio canabis er hynny wedi adrodd am /diodeff symptomau seicotig. Gall pobl ddiodeff symptomau seicotig hyd yn oed os nad ydynt erioed wedi cymryd canabis. Fel dewis arall, mae'r data hyn yn seiliedig ar adroddiadau gan bobl, nid ar asesiadau /diagnoses clinigol gwirioneddol. Mae'n bosibl bod pobl wedi adrodd am symptomau nad oedd ganddynt, ac i'r gwrthwyneb. Gan nad yw'r data'n seiliedig ar ddim ond yr hyn y mae pobl wedi ei ddweud, ni ellir eu defnyddio i brofi unrhyw beth

### ***Credyd rhannol:***

Yn ategu'r pennawd - mae gan y bobl sy'n defnyddio canabis fwy o symptomau seicotig, neu mae gan y bobl nad ydynt yn defnyddio canabis lai o symptomau seicotig (credyd rhannol yn unig a roddir

i'r gosodiadau hyn oherwydd, er mwyn cael credyd llawn, dylai'r myfyrwyr gyfeirio at y niferoedd o bobl , nid y niferodd o symptomau).

**Dim credyd:**

Ymatebion eraill

Dim ymateb

**Naratif:**

Mae'r pennawd papur newydd yn creu cysylltiad rhwng canabis a symptomau seicotig, gan ddweud bod defnyddio canabis yn achosi'r symptomau hyn yn uniongyrchol. Nid dyna'n union a ddangosir gan y data. Y cyfan a ddangosir yn y data yw'r ganran o'r bobl a adroddodd am ddioddef symptomau seicotig. Mae'n bosibl na chafodd y symptomau hynny eu profi na'u diagnosio'n glinigol, a gallant fod yn oddrychol. Mae'r data yn dangos, yn unig, fod y bobl ifanc sydd wedi cymryd canabis yn fwy tebygol o adrodd am symptomau seicotig na'r rhai nad ydynt. Gellir defnyddio'r ffaith bod mwy o ddefnyddwyr canabis yn adrodd am y symptomau hyn i gefnogi'r pennawd (nid yw'r cwestiwn yn gofyn i'r myfyriwr brofi'r cysylltiad). Mae'r data yn dangos bod pobl sydd heb ddefnyddio canabis hefyd yn dioddef symptomau seicotig weithiau (ond nid mor aml). Felly gellid defnyddio hyn, ynghyd â'r diffyg diagnoses clinigol, i ddadlau yn erbyn y pennawd. Os yw canabis yn achosi symptomau seicotig, hwyrach na fyddem yn disgwyl i rai sydd heb ddefnyddio canabis ddioddef symptomau o'r un math.

<b>Categoriâu Fframwaith</b>	<b>Fframwaith 2015</b>
<b>Math o wybodaeth</b>	Epistemig
<b>Cymhwysedd</b>	Dehongli data a thystiolaeth yn wyddonol
<b>Cyd-destun</b>	Peryglon - personol
<b>Gofyniad gwybyddol</b>	Uchel